Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol

Os ydych yn anghytuno gyda phenderfyniad a wnaethpwyd gan eich Gwasanath Tân ac Achub (GTA) neu'r Gweinyddwr Pensiwn mewn perthynas â'ch buddion o Chynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (CPDT), mae proses gwyno dau gam a adnabyddir fel **Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol** (GDAM) yn bodoli.

Gallwch leisio cwyn o dan GDAM os ydych:

- yn **Aelod Arfaethedig**, sy'n ystyried ymuno â'r CPDT 2015 (Cymru),
- yn **Aelod Gweithredol** sy'n cyfrannu i CPDT 1992 / 2007 (Cymru) ar hyn o bryd,
- yn **Aelod Gohiriedig** sydd wedi gadael y GTA, ond bod eich buddion yn parhau yn CPDT,
- yn **Aelod Pensiwn,** sydd ar hyn o bryd yn derbyn buddion pensiwn o'r CPDT (sy'n cynnwys gweddw, gŵr gweddw neu ddibynnydd sydd wedi goroesi, neu nad yw'n ddibynnol, aelod sydd wedi marw o'r CPDT).

Wrth wneud eich cwyn gallwch ddewis rhywun i gynrychioli eich achos – er enghraifft ffrind, perthynas cyfreithiwr neu aelod undeb.

## Cam 1: Cwyn Ffurfiol

Dylech wneud cwyn ysgrifenedig i'r sawl yr ydych yn ei ystyried i fod ar fai, unai eich GTA neu'r Gweinyddwr Pensiwn, gan cwblhau y ffurflen cais o fewn **6 mis** i'r broblem ddod i'r amlwg.  Bydd ffeithiau eich achos yn cael eu harchwilio ynghyd â rheolau'r cynllun, ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol.  Dylech dderbyn ymateb ysgrifenedig oddi fewn **2 fis** o'r amser y derbyniwyd eich manylion.  Fe gyflwynir cadarnhad y penderfyniad, neu fe roddir rhesymau amgen am yr oediad yng nghyswllt derbyn y canlyniad.  Yng nghyswllt cwynion yn erbyn eich GTA, ysgrifennwch atynt os gwelwch yn dda.  Rhaid i'ch GTA eich hysbysu am Dyfarnwr CPDT, Teitl eu Swydd a'i manylion Cyswllt.

Yng nghyswllt cwynion yn erbyn y GTA, cwblhewch y ffurflen gais amgaeedig os gwelwch yn dda a'i hanfon i:

**Mr. Roger Thomas, Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Pencadlys Gwasanaeth, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP**

Am gwynion yn erbyn Gweinyddwr y Cynllun, cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd at:

**Y Rheolwr Pensiynau**
**Cyngor Sir Gaerfyrddin**
**Adeilad 2**
**Parc Dewi Sant**
**Caerfyrddin**
**SA31 3HB**

## Cam 2: Apêl Bellach

Os ydych yn anfodlon â phenderfyniad Cam 1, mae gennych **6 mis** i apelio i ganolwr a apwyntir gan y Gweinyddwr Pensiwn. Mae’n rhaid i apêl Cam 2 fod yn un ysgrifenedig ac fe ddylid cynnwys penderfyniad Cam 1.

Cewch fynd yn syth i Gam 2:

- Os ydych wedi cwblhau Cam 1 a heb dderbyn ateb oddi fewn **3 mis** o wneud yr apêl; neu
- Os ydych wedi cwblhau Cam 1 ond heb dderbyn penderfyniad oddi fewn **mis** i’r dyddiad y dywedwyd wrthych y byddech yn ei dderbyn.

Dylai canolwr Cam 2 roi ateb i chi oddi fewn **2 fis** o dderbyn eich cwyn.

Cwblhewch y ffurflen gais amgaeedig ar gyfer holl gwynion Cam 2 os gwelwch yn dda a’i dychwelyd i:

**Mr. David Daycock**
**Clerc i’r Gwasanaeth Tân Ac Achub**
**Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**
**Pencadlys Gwasanaeth**
**Heol Llwyn Pisgwydd**
**Caerfyrddin**
**SA31 1SP**

# Cymorth Pellach

**1) Yr Ombwdsman Pensiynau (TPO)**

Mae gennych yr hawl i gyfeirio'ch cwyn at Yr Ombwdsman Pensiynau (TPO) yn rhad ac am ddim.

Mae TPO yn ymdrin â chwynion ac anghydfodau sy'n ymwneud â gweinyddu a / neu reoli cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol.

Mae angen gwneud cysylltiad â'r TPO ynglŷn a'ch cwyn o fewn **tair blynedd** o'r ddigwyddiad yr ydych yn cwyno amdano - neu, os yn ddiweddarach, o fewn **tair blynedd** o bryd y gwyddoch chi am yr digwyddiad am y tro cyntaf (neu y dylai fod wedi gwybod amdano). Mae yna ddisgresiwn i ymestyn y terfynau amser hynny.

Manylion cyswllt yr Ombwdsman Pensiynau yw:

**10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU**

Ffôn: **0800 917 4487**
E-bost: **enquiries@pensions-ombudsman.org.uk**
Gwefan: **www.pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg/**

**2) Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (TPAS)**

Os oes gennych chi geisiadau cyffredinol am wybodaeth neu arweiniad ynglŷn a'ch trefniadau pensiwn, cysylltwch â:

**The Pensions Advisory Service (TPAS), 120 Holborn, London, EC1N 2TD**

Ffôn: **0800 011 3797**
Gwefan: **www.pensionsadvisoryservice.org.uk/about-us/our-website/cymraeg**

**3) Y Rheolydd Pensiynau (TPR)**

Y Rheolydd Pensiynau yw gwarchotgi Pensiynau sy'n sicrhau bod cynlluniau yn cael eu rhedeg yn gywir, ac mae'n warchod aelodau rhag twyll. Gall unrhyw un sy'n poeni am gynllun gysylltu â'r Rheolydd Pensiynau.

Mae manylion cyswllt TPR fel a ganlyn.

Cyfeiriad: **TPR, Napier House, Trafalgar Place, Brighton, BN1 4DW**
Ffôn: **0345 600 0707**
Gwefan: **www.thepensionsregulator.gov.uk/cymraeg.aspx**

# Ffurflen Gais GDAM

Gwasanaeth Tân Ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

## Cais Cam 2

(I'w gwblhau gan yr Achwynydd neu Gynrychiolydd Personol)

| **Manylion yr Achwynydd** | | (Cwblhewch mewn llythrennau BRAS os gwelwch yn dda) | |
|---|---|---|---|
| Enw Llawn: | | Dyddiad Geni: | |
| Rhif Cyflogres: | | Rhif Y.G.: | |
| Cyfeiriad: | | | |
| | | | |
| | | Côd Post: | |
| Awdurdod Cyflogi: | | | |

| **Dewis Iaith** | | | | | (TICIWCH y blwch priodol i nodi eich etholiad) |
|---|---|---|---|---|---|
| Fel aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, hoffwn dderbyn **HOLL** ohebiaeth a ddaw yn y dyfodol yn: | | | | | |
| **GYMRAEG** | | **SAESNEG** | | **DDWYIEITHOG** | |

| **Cwblhewch isod os ydych yn Cynrychioli yr Achwynydd** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw Llawn: | | | |
| Perthynas i'r Achwynydd: | | | |
| Cyfeiriad ar gyfer Gohebiaeth: | | | |
| | | | |
| | | Cod Post: | |

## Datganiad Cais

Rhowch ddatganiad ynglŷn â natur yr anghydfod drosodd, gyda manylion digonol i ddangos pam eich bod wedi eich tramgwyddo os gwelwch yn dda.  Os oes angen gallwch barhau ar dudalen ychwanegol a'i atodi i'r ffurflen gais ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.

| Rhowch eich datganiad isod, os gwelwch yn dda. |
|---|
| |

| Parhwech â'ch datganiad isod, os gwelwch yn dda. |
| --- |
| |

| **Datganiad yr Achwynydd (Cam 2)** | | | |
|---|---|---|---|
| 1) Rwy'n gwneud cais am ailystyried penderfyniad ……………………………………… a wnaed o dan adran 50 o Ddeddf Pensiynau 1995. Deallaf y bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub naill ai'n cadarnhau'r penderfyniad neu'n ei ddisodli.<br><br>2) Rwy'n deall efallai na fydd cais yn cael ei wneud lle, mewn perthynas ag anghytundeb:<br><br>• Cyhoeddwyd rhybudd apêl o dan Reol H3 o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (CPDT) 1992, Rhan 8, Paragraff 5 o CPDT 2007 (Cymru) neu Ran 6, rheol 3 o Orchymyn Cynllun Iawndal Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (apelio i fwrdd canolwyr meddygol yn erbyn penderfyniad ar fater o natur feddygol), neu Reoliad 173 CPDT 2015 (Cymru), neu<br><br>• Mae achos mewn perthynas â'r anghydfod hwn wedi cychwyn mewn unrhyw lys neu dribiwnlys, neu<br><br>• Mae'r Ombwdsmon Pensiynau wedi cychwyn ymchwiliad i gŵyn, neu anghydfod a gyfeiriwyd ato.<br><br>3) Nodir natur yr anghytundeb yn y dudalen (nau) atodedig. | | | |
| Llofnod yr Achwynydd: | | Dyddiad: | |
| ENW YN LLYTHRENNAU BRAS: | | | |
| Llofnod y Gynrychiolydd: | | Dyddiad: | |
| ENW YN LLYTHRENNAU BRAS: | | | |